## Cyd-arolygiad Anabledd Dysgu AGGCC/AGIC: Cynllun Gwella

## Ardal: Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg / Tîm Anableddau Dysgu Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr

## Dyddiad yr arolygiad: 9, 15, 18 Rhagfyr 2015

| Rhif y dudalen | Yr hyn mae angen ei wella | Cam gweithredu'r bwrdd iechyd | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 1** | | | | |
| **4-5** | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn cynllunio a blaenoriaethu adnoddau; yn datblygu rolau, cyfrifoldebau a modelau darparu gwasanaeth clir; ac yn rheoli perfformiad a gwerth am arian ar gyfer gwasanaethau anabledd dysgu. Yn benodol, dylai fod gan y Cynllun Tymor Canolig Integredig a chynlluniau gwasanaeth eraill flaenoriaethau a thargedau y gellid eu monitro er mwyn i gynnydd wrth wneud gwelliannau gael ei fesur. | Sefydlu Bwrdd Comisiynu ar y Cyd ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, a fydd yn cael ei gadeirio gan y prif weithredwr. Bydd ganddo gyfrifoldeb penodol sy'n ymwneud â chynllunio a blaenoriaethu adnoddau, a bydd yn arwain ar y gwaith o ddatblygu strategaeth gomisiynu ar gyfer anableddau dysgu ac yn cryfhau cyfleodd ar gyfer comisiynu ar y cyd ar draws maes gofal iechyd a chymdeithasol. | Prif Weithredwr | Ebrill 2016<br>Cwblhawyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cynlluniau'n nodi sut y byddant yn gwella ac yn ychwanegu at y canlynol:<br>• Llwybrau sy'n cynnwys iechyd meddwl, cyfnodau pontio, gofal eilaidd a gwaith fforensig.<br><br>Rolau gwasanaethau ataliol a chysylltiadau iechyd. | Bydd y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cynnwys blaenoriaethau i newid gwasanaethau a chynllun ariannol eglur i gefnogi'r rhain a chynaliadwyedd parhaus. | Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Anableddau Dysgu | Ebrill 2016<br><br>Cwblhawyd |
| | | Bydd proses yn cael ei rhoi ar waith i fonitro cynnydd ar lefel bwrdd iechyd gan gyfarwyddwyr gweithredol fel rhan o broses adolygu perfformiad yr uned gyflenwi a hefyd mewn cyfarfodydd rheoli perfformiad misol, a fydd yn cael eu cynnal ym mhob maes gwasanaeth, gan gynnwys anableddau dysgu, gydag uwch dîm yr uned gyflenwi. | Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Anableddau Dysgu | Ebrill 2016<br><br>Cwblhawyd |
| | | Bydd y Cynllun Tymor Canolig Integredig terfynol yn cynnwys y ddau faes hyn fel dwy o'r tair blaenoriaeth a nodwyd ar gyfer datblygu gwasanaethau a bydd amserlenni ac arweinwyr wedi'u nodi. | Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Anableddau Dysgu | Ebrill 2016<br><br>Cwblhawyd |
| | | Bydd proses yn cael ei sefydlu a'i rhoi ar waith i fonitro cynlluniau gweithredu manwl er mwyn gwella'r gwasanaethau hyn, gan gynnwys cerrig milltir pob tri mis, risgiau i weithredu a mesurau i ddangos gwelliant. Bydd y cynlluniau yn cael eu monitro drwy adolygiadau perfformiad uwch-reolwyr pob mis o fewn yr uned gyflenwi. | Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Anableddau Dysgu | Ebrill 2016<br><br>Cwblhawyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Mae'r gwaith o gyflwyno cynnig Cyswllt Iechyd Anableddau Dysgu o dan gyllid gofal canolraddol wedi cael ei amlygu fel datblygiad i foderneiddio gwasanaethau. | Cyfarwyddwr Nyrsys Uned | Ebrill 2016<br><br>Cwblhawyd |
| | | Cwblhau strategaeth i roi sylw i'r mathau o fodelau gwasanaethau gan gynnwys darpariaeth nyrsys cyswllt. | Cyfarwyddwr Gwasanaethau – Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu | Mawrth 2017 |
| | | Adolygu'r gyllideb ar gyfer gwasanaethau anableddau dysgu fel rhan o broses ailstrwythuro'r sefydliad a sicrhau ei bod yn cael ei chlustnodi o fewn llythyr dyrannu Llywodraeth Cymru. Bydd cysoniad blynyddol o'r dyraniad hwn yn parhau i gael ei wneud. | Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Anableddau Dysgu | Medi 2016 |
| | **Cwestiwn Allweddol 2** | | | |
| 7 | Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynllun ar waith ynglŷn â sut y gellir darparu gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion pobl sydd ag anghenion cymhleth ac ymddygiad heriol. | Sicrhau bod hwn yn cael ei gynnwys fel y drydedd flaenoriaeth o ran gwella gwasanaethau allweddol o fewn y Cynllun Tymor Canolig Integredig, gyda chyfrifoldebau ac amserlenni clir yn cael eu nodi. | Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Uned | Ebrill 2016<br><br>Cwblhawyd |
| | | Mae'r Gwasanaeth Anabledd Dysgu yn chwarae rôl allweddol mewn cynnal a hyrwyddo 'Cymuned Ymarfer' mewn Ymddygiad Heriol. Mae hyn yn gweithredu fel ffordd o rannu arbenigedd ar draws rhwydwaith o ddarparwyr gwasanaeth ar draws y | Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Anableddau Dysgu | Ebrill 2016<br><br>Cwblhawyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | meysydd iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector – er mwyn sicrhau’r cyfleoedd gorau i ddysgu ar draws sefydliadau. Bydd yr Uned Cyflenwi Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn parhau i gefnogi'r ffrydiau gwaith sy'n deillio o'r Gymuned Ymarfer. | | |
| | | Mae prosiect 'Agosach i Gartref' a Grŵp Llywio wedi'u sefydlu yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr, gyda'r bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol yn cymryd rhan weithredol. Mae'r ffrwd waith hon wedi'i chysylltu â'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer sefydlu modelau gwasanaeth yn y dyfodol. | Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Anableddau Dysgu | Ebrill 2016<br>Cwblhawyd |
| | | Fel y crybwyllwyd yn y camau gweithredu i roi sylw i Gwestiwn 1, mae partneriaeth Bae'r Gorllewin wedi cytuno ar y cyd i sefydlu Bwrdd Comisiynu a fydd yn mynd i'r afael â bylchau presennol yn y trefniadau cynllunio a chomisiynu ar y cyd. Bydd y bwrdd yn cael ei gadeirio ar y cyd gan Brif Swyddog Gweithredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol un o'r tri awdurdod lleol. Bydd y bwrdd yn cynnwys cynrychiolaeth gan bartneriaid perthnasol a mewnbwn defnyddwyr y gwasanaeth, a bydd ganddo oruchwyliaeth dros ddatblygiad strategol gwasanaethau anableddau dysgu. | Prif Weithredwr | Ebrill 2016<br>Cwblhawyd |
| | | Cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu gan Uned Cyflenwi Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu ar 12 Chwefror 2016. Gwnaeth y digwyddiad dwyn amrywiaeth o 300 o randdeiliaid at ei gilydd, gan gynnwys clinigwyr, defnyddwyr gwasanaeth, y sector eiriolaeth, sefydliadau trydydd | Cyfarwyddwr Gwasanaethau’r Uned | Ebrill 2016<br>Cwblhawyd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | sector, awdurdodau lleol, a darparwyr partner perthnasol ar draws ffiniau'r bwrdd iechyd.<br>Nod y digwyddiad oedd darparu platfform i ddatblygu strategaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu. Roedd ystod o sesiynau a gynhaliwyd mewn grwpiau bach ar y diwrnod ac fe'u cynlluniwyd i alluogi grwpiau o randdeiliaid i ymdrin â chryfderau a gwendidau'r ddarpariaeth gwasanaeth bresennol ond hefyd i nodi cyfleoedd i'w gwella. Bydd y canlyniadau sy'n deillio o'r digwyddiad yn cael eu hystyried gan y bwrdd comisiynu er mwyn eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu strategaeth ac i roi blaenoriaeth iddynt o hynny allan o fewn Cynllun Tymor Canolig Integredig 2017-18. | | |
| | Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff rheng flaen yn teimlo yn ymgysylltiedig â gweledigaeth y bwrdd iechyd trwy wella trefniadau cyfathrebu a'r llif gwybodaeth. | Sefydlu newyddlen fisol i sicrhau bod gwybodaeth amserol yn cael ei rhannu rhwng uwch-reolwyr a staff rheng flaen. | Cyfarwyddwyr yr Uned | Ebrill 2016<br>Cwblhawyd |
| | | Wedi sefydlu briff i'r tîm bob mis ar gyfer yr holl staff i'w fynychu yn ystod yr amser o newid sefydliadol i sicrhau bod yr holl staff yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ac yn cyfrannu at fentrau i newid gwasanaethau. | Cyfarwyddwyr yr Uned | Ebrill 2016<br>Cwblhawyd |
| | Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod proses glir ar waith ar gyfer timau cymunedol i hysbysu am bryderon o ran diogelu drwy'r bwrdd iechyd er mwyn i bryderon a themâu gael eu monitro. | Sefydlu proses newydd o fewn y bwrdd iechyd ar gyfer hysbysu am yr holl faterion diogelu a'u cofnodi, gan gynnwys y rheini yn y timau cymunedol (sydd yn gyfrifol am arwain yn yr awdurdod lleol). Bydd pryderon yn cael eu hanfon at Dîm Diogelu Bwrdd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ar gyfer cofnodi ac adolygu'r themâu a gyflwynir. | Pennaeth Diogelu a<br>Chyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Anableddau Dysgu | Ebrill 2016<br>Cwblhawyd |
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 9 | Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod y systemau rheoli cofnodion ar gyfer staff iechyd yn addas i'r diben ac yn cefnogi staff i gyflawni eu swyddi'n effeithiol, gyda'r bwriad o ddatblygu system rheoli cofnodion ar y cyd gyda'r awdurdod lleol.<br><br>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn ogystal â staff er mwyn gosod gweledigaeth a chyfeiriad y gwasanaeth. | Cyflwyno'r System Wybodaeth Gofal Cymunedol newydd. System y GIG a Gofal Cymdeithasol ar y cyd – proses caffael Cymru gyfan wedi'i chwblhau. | Cyfarwyddwr Dros Dro ar gyfer Anableddau Dysgu a Phennaeth Gwybodaeth Technoleg | Dyddiad i'w gadarnhau |
| | | Sefydlu prosiect i ystyried opsiynau a chynyddu ffyrdd mwy awtomatig o weithio a defnyddio'r systemau presennol i wella'r llif gwybodaeth bresennol a sicrhau y bydd y broses newid yn esmwyth pan fydd y System Wybodaeth Gofal Cymunedol yn cael ei mabwysiadu. | Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Anableddau Dysgu | Ebrill 2017<br>Cwblhawyd |
| | | Bydd digwyddiad ymgysylltu yn cael ei gynnal ar 12 Chwefror 2016 – bydd adroddiad canlyniadau yn cael ei ddosbarthu i holl aelodau staff. | Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Anableddau Dysgu | Chwefror 2016 – Ebrill 2016<br>Cwblhawyd |

**Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd:**

**Enw (llythrennau bras):** **David Roberts**

**Teitl:** **Cyfarwyddwr Gwasanaethau – Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu**

**Dyddiad:** **15 Mehefin 2016**